| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD |
| **DYDDIAD** | 22 Mehefin 2012 |
| **TEITL** | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Adroddiad Cynnydd |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Pwyllgor o'r cynnydd hyd yma;<br>Rhoi gwybodaeth am y drefn adrodd i bwyllgorau yn ystod 2012 – 2013;<br>Rhoi gwybodaeth am y rhaglen waith a'r amserlen |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r Aelodau gefnogi'r rhaglen waith a'r amserlen diwygiedig |
| **AWDUR** | Nia Davies, Rheolwr Cynllunio (Polisi), Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd |

## 1 Cefndir a phwrpas

1.1 Mae rhaglen y Cynghorau i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y Cyd wedi cael ei gynnwys yn y Cytundeb Cyflawni a gafodd ei gymeradwyo gan y ddau Gyngor erbyn mis Tachwedd 2011. Cafodd y Cytundeb ei gefnogi gan y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2011

1.2 Pwrpas adroddiad yw diweddaru'r Pwyllgor o'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud hyd yma yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Mae'n rhoi gwybodaeth am yr astudiaethau technegol sy'n cael eu gwneud yn ogystal â gwaith ar bapurau testun cysylltiol. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am gefnogaeth i'r amserlen ddiwygiedig.

## 2 Cynnydd hyd yma

2.1 Mae Tabl 1 yn Atodiad 1 yn dangos y cerrig milltir statudol yn y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Hwn sydd wedi cael ei gynnwys yn y Cytundeb Cyflawni.

2.2 Ar hyn o bryd rydym yng nghanol camau 2 a 3 sef adolygu a datblygu'r sail dystiolaeth, sy'n cynnwys cael mewnbwn gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Dyma'r cyfnod pryd gesglir llawer o dystiolaeth a fydd yn dylanwadu ar gynnwys y CDLl ar y Cyd.

2.3 Mae Tabl 2 yn Atodiad 1 yn dangos y cerrig milltir rheng is sydd yn ein caniatáu i gyrraedd y camau statudol a welir yn Nhabl 1.

2.4 Mae Tabl 3 yn Atodiad 2 yn rhoi gwybodaeth am astudiaethau technegol a phapurau testun.

## 3 Dyddiadur adrodd i bwyllgorau yn 2012

3.1 Mae Tabl 4 yn Atodiad 3 yn dangos y drefn adrodd arfaethedig a pherthynas y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda phwyllgorau perthnasol eraill.

3.2 Anelir i gyflwyno rhan o'r Cynllun Cyn Adnau i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi a'r Cynllun Cyn Adnau cyflawn iddo ym mis Tachwedd 2012. Mae Tabl 4 yn dangos na fydd y Cynllun Cyn Adnau ddim yn barod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus tan ddiwedd mis Rhagfyr 2012.

3.3 Er bod cynnydd arwyddocaol wedi cael ei wneud yn y gwaith o gasglu a dadansoddi tystiolaeth mae nifer o faterion wedi effeithio ar yr amserlen, gan olygu llithriad bychan o 3 mis. Mae'r materion yma'n cynnwys;

- yr ymateb arwyddocaol i'r cyfnod galw am safleoedd, gyda chanran uchel iawn o'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno'n ystod y bythefnos olaf o'r cyfnod. Roedd rhaid prosesu pob un o'r safleoedd ac fe fydd rhaid asesu pob un hefyd;
- gorfod cyfeirio adnoddau i feysydd gwaith arall, e.e. paratoi CCA Ynni adnewyddol ar y tir ac ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus
- cyfnodau o salwch tymor hir yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd,

3.4 Mae Tabl 5 yn Atodiad 4 yn rhoi'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer y broses paratoi'r CDLl ar y Cyd. Noder y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw at yr amserlen ddiwygiedig yma ar gyfer 2012 - 2013 ac i edrych am gyfleon i leihau'r llithriad o fis Ebrill 2013 ymlaen. Rydym eisoes wedi rhagrybuddio Llywodraeth Cymru ynglyn a'r llithriad bychan yma, y rhesymau am y llithriad a'r camau gymerir i ddadwneud y llithriad.

## 4 Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Aelodau gefnogi'r rhaglen waith a'r amserlen ddiwygiedig

## ATODIAD 1

### Tabl 1: yr amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl ar y Cyd sydd yn y Cytundeb Cyflawni (2011)

| Cam yn y broses paratoi | | Amserlen |
|---|---|---|
| | **Amserlen derfynol** | |
| 1. | Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol (*Rheoliad 5 – 10)* | Ionawr – Tachwedd 2011 |
| 2. | Adolygu'r sail tystiolaeth a'i ddatblygu | Gorffennaf 2010 – Gorffennaf 2012 |
| 3. | Cyfranogiad Cyn- adneuo – paratoi'r dogfennau cyn-adneuo a fydd yn amlinellu'r prif amcanion a'r hoff strategaeth (*Rheoliad 14).* Ni fydd hwn yn ddrafft llawn o'r CDLl ar y Cyd | Ionawr 2011 – Gorffennaf 2012 |
| 4. | Ymgynghori Cyn-adneuo – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliad 15*). Ymgynghoriad ffurfiol am y dogfennau cyn-adneuo a'r adroddiad asesiad cynaladwyedd | Medi 2012 – Hydref 2012 |
| 5. | Cyfranogiad – datblygu'r sail tystiolaeth ymhellach a pharatoi CDLl ar y Cyd Adneuo (cynllun drafft llawn) a fydd wedi selio ar y sail dystiolaeth, sy'n cynnwys yr ymateb a gafwyd i'r dogfennau cyn-adneuo | Tachwedd 2012 – Medi 2013 |
| 6. | Rhoi'r CDLl ar y Cyd a dogfennau cysylltiol ar adnau – cyfnod ymgynghori 6 wythnos (*Rheoliad 17*) | Hydref 2013 – Tachwedd 2013 |
| | **Amserlen ddangosol**[1] | |
| 7. | Ystyried sylwadau am y CDLl ar y Cyd Adnau (*Rheoliad 18 & 19)* | Rhagfyr 2013 – Mehefin 2014 |
| 8. | Cyhoeddi sylwadau am safleoedd amgen, ymgynghori amdanynt – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliadau 20 & 21)* | Ionawr 2014 – Chwefror 2014 |
| 9. | Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad (*Rheoliad 22)* | Tachwedd 2014 |
| 10. | Archwiliad Cyhoeddus Annibynnol (*Rheoliad 23)* | Ebrill 2015 |
| 11. | Cyhoeddiad Adroddiad yr Arolygydd (*Rheoliad 24)* | Ionawr 2016 |
| 12. | Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (*Rheoliad 25)* | Ebrill 2016 |

[1] Bydd yr amserlen ar gyfer cymryd camau 7 – 12 yn ddibynol ar ffactorau a dylanwadau allanol nad yw'n wybyddus i'r Cyngor 'rwan

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 13. | **Monitro ac Adolygu** | Adroddiad blynyddol |

**Tabl 2: Cerrig milltir allweddol 2011 – 2012**

| **Carreg milltir** | **Dyddiad targed** | **Cynnydd** |
|---|---|---|
| Cytundeb Cyflawni yn ei le | Tachwedd 2011 | Cwblhau |
| Galw am safleoedd posib | Hydref 2011 | Cwblhau. Neilltuwyd cyfnod o 4 mis i gyflwyno gwybodaeth am safleoedd |
| Cyhoeddi’r Gofrestr Safleoedd Posib | Ebrill 2012 | Cwblhau. Ar hyn o bryd mae yna 800 o safleoedd wedi cael eu cofrestru. |
| Datblygu Adroddiad Sgopio’r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) Drafft | Mehefin 2011 | Cwblhau. Cafwyd trafodaeth gyda’r Grwp Tasg Cynaliadwyedd a chefnogaeth gan gwmni Enfusion |
| Gofyn am farn y cyhoedd ac eraill am yr Adroddiad Sgopio’r AC Drafft | Awst 2011 | Cwblhau. Cafwyd cyfnod ymgynghori am 5 wythnos. Mae’r Adroddiad Sgopio Drafft wedi cael ei ddiwygio a’i ddatblygu i ffurf Adroddiad Amgylcheddol drafft |
| Nodi gweledigaeth ac amcanion ac adnabod a phrofi opsiynau strategol | Mawrth 2012 | Cwblhau. Cafwyd cyfnod ymgynghori am 12 wythnos, a oedd yn cynnwys cynnal seminar gyda chynghorwyr a mynychu cyfarfodydd gyda gwahanol grwpiau. Fe gymhwyswyd y fethodoleg cynaladwyedd. Mae’r ddau Gyngor wedi cytuno ar weledigaeth, amcanion , lefel twf tai a phatrwm dosbarthiad datblygiad. |

**ATODIAD 2**

**Tabl 3: Astudiaethau technegol a phapurau testun cyfredol**

| **Astudiaeth dechnegol** | **Disgrifiad a phwrpas** | **Pwy sy'n gwneud y gwaith** | **Cynnydd hyd yma** |
|---|---|---|---|
| Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol) | Gofyniad statudol. Proses asesu i sicrhau fod ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac Economaidd yn derbyn ystyriaeth wrth ddatblygu'r CDLI ar y Cyd. Mae'n rhaid dilyn Rheoliadau Ewropeaidd | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd mewn ymgynghoriad efo'r Grwp Tasg Cynaliadwyedd. Mae Enfusion wedi cael ei benodi. | Adroddiad Amgylcheddol drafft wedi cael ei gwblhau. Mae'r gwaith wedi dylanwadu ar y broses paratoi'r CDLI ar y cyd hyd yma. |
| Astudiaeth Tir Cyflogaeth | Adolygu'r angen am dir cyflogaeth ychwanegol ar sail asesiad o'r cyflenwad presennol a strategaethau economi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. | URS Scott Wilson Ltd | Astudiaeth wedi ei gwblhau ac adroddiad terfynol yn barod diwedd mis Mehefin 2012 |
| Astudiaeth Angen Manwerthu | Adolygu'r angen am ddynodiadau manwerthu ar sail asesiad o berfformiad manwerthu, rhagolygon manwerthu ac asesiad o ganol trefi presennol. | Applied Planning | Cyfarfod dechreuol wedi digwydd a gwaith maes yn digwydd ym mis Mehefin a Gorffennaf 2012. Adroddiad terfynol erbyn dechrau mis Medi 2012 |
| Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy | Adolygu'r dystiolaeth gyfredol i adnabod lefel hyfyw o dai fforddiadwy yn y CDLI ar y Cyd. | Three Dragons AG Ltd | Cyfarfod dechreuol wedi digwydd. Adroddiad terfynol erbyn Medi 2012 |

| **Astudiaeth dechnegol** | **Disgrifiad a phwrpas** | **Pwy sy'n gwneud y gwaith** | **Cynnydd hyd yma** |
|---|---|---|---|
| | Gosod targedau tai fforddiadwy ellir eu cyrraedd ac adnabod trothwyon priodol lle fydd angen negodi lefel o dai fforddiadwy | | |
| Asesiad Capasiti Ynni Adnewyddol | Adnabod cyfleon a chyfyngiadau i ddefnyddio technolegau ynni adnewyddol amrywiol ar y tir | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a Arup | Asesiad o gapasiti ardal Gwynedd erbyn diwedd Mehefin 2012 ac asesiad o gapasiti ardal Môn erbyn diwedd Awst 2012 |
| Asesiad Cymeriad Tirwedd | Adolygu Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar sail gwybodaeth LANDMAP diweddaraf | LUC | Cyfarfod dechreuol wedi digwydd. Adroddiad terfynol erbyn Medi 2012 |
| Asesiad Sensitifrwydd Bioamrywiaeth | Defnyddio gwybodaeth leol i ddod i gasgliad ynglŷn a gwerth bioamrywiaeth tir du mewn i neu'n agos at aneddleoedd allweddol | COFNOD - y ganolfan gofnodi leol | Caiff y mapiau terfynol eu cwblhau diwedd mis Mehefin 2012 |
| Astudiaeth Capasiti Trefol | Chwilio am gyfleon datblygu du mewn i ffurf adeiledig aneddleoedd allweddol | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | Adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2012 |
| Astudiaeth Strategol o Risg Llifogydd Lefel 1 | Adolygiad o ddata cyfredol | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | Adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Mehefin 2012 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Astudiaeth Capasiti Isadeiledd | Adolygiad o wybodaeth am anghenion a chynlluniau darparwyr isadeiledd (prifion cyhoeddus), gwasanaethau brys, gwasanaethau cymunedol a chyhoeddus, gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd | Uned Polisi cynllunio ar y Cyd | Adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2012 |
| Astudiaeth llecynnau agored ac adloniadol | Awdit o lefydd agored ac adloniadol ac angen | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | Adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2012 |
| Astudiaeth Argaeledd Tir ar Gyfer Tai | Darparu tystiolaeth o gyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai yn flynyddol | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | Adroddiad terfynol erbyn diwedd Mawrth (yn flynyddol) |
| **Papurau testun** | **Disgrifiad a phwrpas** | **Pwy sy'n gwneud y gwaith** | **Cynnydd hyd yma** |
| Iaith Gymraeg a diwylliant | Adolygiad o ddata a gwybodaeth gyfredol ac adnabod materion sydd angen eu taclo yn y CDLl ar y Cyd | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | Papurau terfynol erbyn diwedd Gorffennaf 2012 |
| Poblogaeth a Thai | | | |
| Manwerthu | | | |
| Twristiaeth | | | |
| Trafnidiaeth | | | |

**ATODIAD 3**
**Tabl 4: Y drefn adrodd arfaethedig yn 2012**

| | Ar y Cyd | Gwynedd | Môn | Ar y Cyd | Gwynedd | Môn | Ar y Cyd | Gwynedd | Môn | Môn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Craffu** | | | 10/09/2012 | | | Arbennig (i'w drefnu) | | 05/02/13 | | |
| **Polisi Cynllunio ar y Cyd** | 22/06/2012 | | | 07/09/2012 | | | 23/11/2012 | | | |
| **Cabinet/ Comisiynwyr** | | | | | | | | 18/12/2012 | Arbennig (i'w drefnu) | |
| **Cyngor Môn** | | | | | | | | | | 06/12/2012 |

## ATODIAD 4

### Tabl 5: Yr Amserlen Ddiwygiedig ar gyfer y broses paratoi'r CDLl ar y Cyd

| **Cam yn y broses paratoi** | | **Amserlen** |
|---|---|---|
| | **Amserlen derfynol** | |
| 1. | Paratoi a chyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni terfynol (*Rheoliad 5 – 10)* | Ionawr – Tachwedd 2011 |
| 2. | Adolygu'r sail tystiolaeth a'i ddatblygu | Gorffennaf 2010 – Tachwedd 2012 |
| 3. | Cyfranogiad Cyn- adneuo – paratoi'r dogfennau cyn-adneuo a fydd yn amlinellu'r prif amcanion a'r hoff strategaeth (*Rheoliad 14).* Ni fydd hwn yn ddrafft llawn o'r CDLl ar y Cyd | Ionawr 2011 – Tachwedd 2012 |
| 4. | Ymgynghori Cyn-adneuo – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliad 15*). Ymgynghoriad ffurfiol am y dogfennau cyn-adneuo a'r adroddiad asesiad cynaladwyedd | Ionawr – Chwefror 2013 |
| 5. | Cyfranogiad – datblygu'r sail tystiolaeth ymhellach a pharatoi CDLl ar y Cyd Adneuo (cynllun drafft llawn) a fydd wedi selio ar y sail dystiolaeth, sy'n cynnwys yr ymateb a gafwyd i'r dogfennau cyn-adneuo | Tachwedd 2012 – Medi 2013 |
| 6. | Rhoi'r CDLl ar y Cyd a dogfennau cysylltiol ar adnau – cyfnod ymgynghori 6 wythnos (*Rheoliad 17*) | Hydref 2013 – Tachwedd 2013 |
| | **Amserlen ddangosol**[2] | |
| 7. | Ystyried sylwadau am y CDLl ar y Cyd Adnau (*Rheoliad 18 & 19)* | Rhagfyr 2013 – Mehefin 2014 |
| 8. | Cyhoeddi sylwadau am safleoedd amgen, ymgynghori amdanynt – cyfnod 6 wythnos (*Rheoliadau 20 & 21)* | Ionawr 2014 – Chwefror 2014 |
| 9. | Cyflwyno'r CDLl ar y Cyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad (*Rheoliad 22)* | Tachwedd 2014 |
| 10. | Archwiliad Cyhoeddus Annibynnol (*Rheoliad 23)* | Ebrill 2015 |
| 11. | Cyhoeddiad Adroddiad yr Arolygydd (*Rheoliad 24)* | Ionawr 2016 |
| 12. | Mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (*Rheoliad 25)* | Ebrill 2016 |
| 13. | **Monitro ac Adolygu** | Adroddiad blynyddol |

[2] Bydd yr amserlen ar gyfer cymryd camau 7 – 12 yn ddibynol ar ffactorau a dylanwadau allanol nad yw'n wybyddus i'r Cyngor 'rwan